

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, “Adroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru”.

Dŵr yw un o'n hasedau naturiol mwyaf ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Mae'n saernio ein hamgylchedd a'n tirweddau naturiol, gan gynnal bioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae dŵr yn adnodd naturiol hanfodol ac yn sylfaen i'n heconomi ac mae'n seilwaith, gan gynnwys ein cyflenwad ynni, yn dibynnu arno i weithio'n effeithiol. Mae'n hanfodol bod cyflenwadau dŵr glân, diogel a chydnerth ar gael i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ac yn ymweld â'r wlad er budd eu hiechyd a'u lles.

Mae diogelu a chyfoethogi'n hamgylchedd dŵr yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o hyd. Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i wella ansawdd ein dŵr trwy ddechrau dynodi dyfroedd hamdden ar y tir a chryfhau'r mesurau monitro ansawdd. Mae'n cynnwys ymrwymiad i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i sicrhau buddiannau amgylcheddol ac economaidd ac o ran bioamrywiaeth a llesiant i'n cymunedau. Rydyn ni wedi neilltuo ar gyfer rhaglen o waith gwerth dros £40 miliwn dros y 3 blynedd nesaf i wella ansawdd dŵr.

Ansawdd Dŵr – categorïau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Yn ôl data diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mae 40% o gyrff dŵr Cymru (44% o'n hafonydd) o statws ecolegol da neu well, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod ansawdd y dŵr yn amgylchedd Cymru yn gwella'n raddol. Mae “statws ecolegol da” (GES) yn fesur safonol ar gyfer asesu iechyd yr amgylchedd dŵr. Fe'i rhoddir ar sail profion amrywiol gan gynnwys llif y dŵr, ansawdd cynefinoedd a bioleg. Mae methu un prawf yn golygu bod y corff dŵr cyfan yn colli ei statws ecolegol da.

O ran ein dyfroedd ymdrochi, mae'r data diweddaraf yn dangos am y bedwaredd flwyddyn o'r bron, bod pob un yn cydymffurfio â'r safonau amgylcheddol, gydag 85 o'r 105 o'n dyfroedd ymdrochi o safon 'ardderchog'.

Ond mae'n dyfroedd o dan bwysau o nifer o gyfeiriadau – tywydd eithafol, llygredd, effeithiau'r hinsawdd, prosesau diwydiannol a'r galw cysylltiedig am ddŵr a'r twf yn y boblogaeth. Mae angen diogelu ein cyrff dŵr er mwyn i genedlaethau heddiw ac yfory gael byw mewn Cymru lewyrchus, cydnerth ac iach. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflwyno cyfres gynhwysfawr o ymyriadau trwy bolisi a rheoliad, ynghyd â phegyn buddsoddi sylweddol, ond ni allwn wneud hyn ar ein pennau'n hunain. Dim ond trwy weithio gyda'n gilydd fel “Tîm Cymru” y mae gobaith i ni allu delio â'r peryglon niferus sy'n wynebu'n llynnoedd, afonydd a nentydd.

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai llygredd amaethyddol yn aml yw un o'r prif ffactorau sy'n achosi methiant cyrff dŵr. Mae ffactorau eraill hefyd, gan gynnwys llygredd o hen lofeydd, ffyrdd, asedau'r diwydiant dŵr a newidiadau ffisegol i gyrff dŵr.

Mae data diweddaraf CNC yn dangos mai gorlifoedd stormydd sy'n gyfrifol pam nad yw 3.7% o gyrff dŵr Cymru wedi sicrhau Statws Da. O'r 933 o'r gyrff dŵr yng Nghymru, cadarnhawyd mai gorlifoedd sy'n gyfrifol am fethiant 4, y rheswm tebygol am fethiant 27 a'r rheswm posibl am fethiant 4 arall. Yn ddi-os, mae ffactorau eraill yn effeithio ar y gyrff dŵr hyn, felly ni fyddai tacio gorlifoedd stormydd yn unig yn arwain at welliannau cynhwysfawr. Mae angen datblygu atebion fydd yn mynd i'r afael â holl achosion llygredd.

Gorlifoedd Stormydd

Mae'n bwysig lleihau effeithiau gorlifoedd stormydd. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd holistig, ar draws ffiniau sectorau. Mae Llywodraeth Cymru'n troi at atebion cynaliadwy, sy'n seiliedig ar natur, i atal a throi cymaint o ddŵr wyneb â phosibl rhag llifo i'r systemau carthffosiaeth er mwyn cynyddu capasiti'r rhwydwaith.

Mae gorlifoedd stormydd yn cynnig pwynt lliniaru ar adegau o law trwm. A ninnau'n dioddef mwy o dywydd eithafol, maen nhw'n hanfodol i rwystro carthion o garthffosydd rhag gorlifo a'u golchi i gartrefi a busnesau.

Byddai darparu gorlifoedd newydd yn lle'r rhai presennol yn brosiect tymor hir a drud iawn o ran arian a charbon ac nid dyna'r ffordd orau chwaith o wella ansawdd dŵr na gwrthsefyll heriau cynyddol hinsawdd sy'n newid.

Rydym eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r gollyngiadau o orlifoedd. Mae hyn yn golygu ei gwneud yn orfodol gosod systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ar bob adeilad newydd. Byddai hynny'n lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith trwy ailgyfeirio ac arafu llif y dŵr wyneb sy'n llifo i'r system garthffosiaeth. Bydd yn helpu i sicrhau mai dim ond pan fydd rhaid y defnyddir gorlifoedd stormydd.

Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â'r diwydiant dŵr, rheoleiddwyr a Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig trwy Raglen Ddraenio'r 21ain Ganrif i ddatblygu fframwaith, canllawiau a methodolegau i gwmnïau dŵr allu gwella'u cynlluniau tymor hir ar gyfer rheoli draenio a dŵr gwastraff.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gosod cynlluniau draenio a gwastraff dŵr ar sail statudol yng Nghymru a Lloegr. Drwyddi, mae Gweinidogion Cymru yn cael gwneud rheoliadau ynghylch cynnwys DWMP a'r broses y mae angen i gwmnïau dŵr Cymru ei dilyn wrth gynhyrchu DWMP. Mae'n fframwaith statudol ar gyfer cynlluniau a baratoir ar ôl 2025, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori â rhanddeiliaid ar unrhyw reoliadau sy'n sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru.

Mae'r cwmnïau dŵr wrthi'n paratoi DWMP drafft (anstatudol) at ddiben ymgynghori arno yn ddiweddarach eleni. Mae fy swyddogion wedi sefydlu rhwydwaith sy'n cynnwys rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid yng Nghymru i weithio'n agos gyda'r cwmnïau dŵr wrth iddynt ddatblygu eu DWMP drafft. Gan weithio gydag

CNC, Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat, rydym wedi datblygu a chyhoeddi egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu DWMP:

[Egwyddorion arweiniol ar gyfer cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff \(llyw.cymru\)](#)

Mae llawer o ffactorau cyd-ddibynnol y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau draenio a charthffosiaeth – rhaid i gwmnïau dŵr gyflawni eu dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol, mae angen iddynt weithio gydag awdurdodau lleol (sy'n gyfrifol am atal llifogydd ac am asedau draenio sylweddol fel draeniau priffyrdd a systemau draenio cynaliadwy a allai ollwng dŵr i rwydwaith y cwmnïau dŵr), perchenogion tir a ffermwyr (y gallai eu dŵr ymuno â rhwydwaith y cwmnïau dŵr, neu dderbyn dŵr sy'n gollwng o rwydwaith y cwmni dŵr).

Bydd y DWMP yn rhan allweddol o'r dystiolaeth a ddefnyddir gan gwmnïau dŵr i ddatblygu a blaenoriaethu'u cynlluniau buddsoddi yn eu systemau rheoli draenio a dŵr gwastraff yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Mae hyn yn cynnwys nodi lle y dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi i wella ansawdd dŵr, a'r ffordd orau o wneud hynny.

Bydd y cynlluniau'n ystyried sut i fynd i'r afael â phwysau heddiw ac yfory ar y system ddraenio a gwastraff dŵr yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y twf yn y boblogaeth a'r newid yn yr hinsawdd, i adeiladu seilwaith dŵr gwastraff a draenio cadarnach. Fel rhan o agwedd fwy cydweithredol, byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr barhau i gynnig atebion sy'n seiliedig ar natur. Bydd y mesurau hyn yn ysgafnhau'r pwysau ar y rhwydwaith carthffosydd drwy arafu llif y dŵr wyneb iddo, gan leihau'r gollyngiadau o orlifoedd stormydd.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith am eu hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Argymhelliad 1

Mae nifer y gollyngiadau carthion i afonydd Cymru yn annerbyniol. Rhaid i ni weld camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru, yn ei rôl arwain, i sicrhau bod nifer a chyfeintiau y gollyngiadau yn cael eu lleihau fel mater o frys. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyfryngau wedi rhoi llawer o sylw yn ddiweddar i ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion i ddyfrffyrdd. Mae canfyddiad eang mai dyma brif achos ansawdd dŵr gwael. Mae'r dystiolaeth yn dangos, fodd bynnag, bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at ansawdd dŵr gwael (llygredd amaethyddol, camgysylltu draeniau preifat, tanciau carthion, ymhlith eraill).

Dyma pam y mae mynd i'r afael â gorlifoedd yn un o elfennau allweddol dull ehangach a mwy cyfannol gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd dŵr. Rydyn ni'n cydweithio'n glos gyda'n partneriaid cyflawni, rheoleiddwyr a'r sectorau perthnasol i nodi a gweithredu atebion cynaliadwy sydd yn ogystal â gwella ansawdd y dŵr fel ag

a ddymunir, yn helpu hefyd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gwella bioamrywiaeth a chyrraedd ein targed sero net.

I'n helpu i roi'n atebion ar sail dalgyllch ar waith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae angen gwybodaeth well am ansawdd y gollyngiadau o orlifoedd a'u heffaith ar ansawdd y dŵr sy'n derbyn. Bydd monitro gwell ar yr elfion ar safleoedd wedi'u targedu, ynghyd â'r gwaith monitro ar hyd digwyddiadau sydd eisoes yn digwydd, yn gwella'r dystiolaeth ac yn ein helpu i dargedu a blaenoriaethu camau gweithredu'n effeithiol. Rhaid i waith monitro gorlifoedd nawr ac yn y dyfodol ddigwydd ochr yn ochr â rhaglenni monitro ffynonellau llygredd gwasgareddig, amaethyddol a sectorau eraill.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) drwy'r Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Byddan nhw'n ein helpu i ddeall a nodi a oes angen newidiadau i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn rheoli ac yn rhedeg eu rhwydwaith o garthffosydd yn effeithiol ar gyfer ymateb i heriau heddiw a'r dyfodol.

Rwyf wedi bod yn glir bod angen inni weithio mewn ffordd integredig ar sail dalgyllch gan ganolbwyntio ar gydweithredu rhwng sectorau ac atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd dŵr. Drwy weithio fel hyn a thrafod â chymunedau'n well, byddwn yn gallu ystyried amgylchiadau a blaenoriaethau lleol yn well. Bydd hyn yn datrys problemau â gollyngiadau o Orlifoedd a mynd i'r afael hefyd â phrif achosion eraill ansawdd dŵr gwael.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i ddiweddarau'r pwyllgor mewn 6 mis.

Goblygiadau ariannol – Bydd angen cwmpasu'r costau - rydym yn gweithio gydag ymgynghorwyr i baratoi adroddiad a fydd yn mesur cost diogelu ansawdd dŵr (gan fodloni gofynion WFD, dyfroedd ymdrochi a gofynion pysgod cregyn). Bydd hyn yn cynnwys senarios sy'n mynd ar gyflymder gwahanol ac sy'n defnyddio dulliau peirianeg gwahanol (er enghraifft, llwyd vs llwyd/glas/gwyrdd) yn ôl addasrwydd, cyfyngiadau a chyfleoedd y dalgyllch a bydd yn cynnwys blaenoriaethu yn ôl sensitifrwydd cyrff dŵr (e.e. ACA, SoDdGA). Rydym yn disgwyl i'r adroddiad gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Argymhelliad 2

Rhaid i ni weld cynnydd amlwg gan CNC ar ei waith i ddod â gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' o fewn y drefn reoleiddio. Rydym yn disgwyl i CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch ei gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

CNC fydd yn ymateb i'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol – Bydd angen cwmpasu'r costau a chan ddibynnu ar amserlen a maint y gwaith sydd ei angen, efallai y bydd angen rhagor o adnoddau.

Argymhelliad 3

Dylai CNC a cwmnïau dŵr gyhoeddi data blynyddol a/neu wybodaeth am gyfran y gollyngiadau carthion nad ydynt o fewn amodau trwydded, pa gategori o ddigwyddiadau llygredd gafodd y rhain, ac a gymerwyd camau gorfodi

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddir data ar ddigwyddiadau a'u hyd mewn adroddiadau blynyddol gan y cwmnïau dŵr. Mae nifer a chategoriâu'r digwyddiadau llygru a achosir gan asedau cwmnïau dŵr ac unrhyw gamau gorfodi dilynol yn cael eu cynnwys yn asesiad perfformiad amgylcheddol blynyddol CNC o'r cwmnïau.

[Gorlifoedd Storm Cyfun \(CSOs\) | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](#)

[Dogfennau | Llyfrgell Rheoleiddio | HD Cymru](#)

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru](#)

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy](#)

Goblygiadau ariannol – dim

Argymhelliad 4

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid perthnasol eraill ddatblygu trefniadau monitro gwell gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o effaith gollyngiadau ar ddŵr derbyn. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylid ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o fewn trefniadau gwell

Ymateb: Derbyn

Bydd un o'r cynlluniau gweithredu sy'n cael ei ddatblygu gan y Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell yn canolbwyntio ar drefniadau monitro. Caiff rhaglen monitro ymchwiliol ei sefydlu gan CNC a'r cwmnïau dŵr i nodi gofynion hirdymor monitro gorlifoedd ledled Cymru. Bydd yr angen i fonitro ystod ehangach o lygryddion gan gynnwys micro-blastigau, cynhyrchion fferyllol a pharmedrau iechyd y cyhoedd hefyd yn cael ei asesu.

Bydd y cwmnïau dŵr hefyd yn ymchwilio i'r defnydd o ddulliau monitro a thystiolaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys atebion a thechnoleg arloesol ac yn eu hyrwyddo. Bydd gan bobl a grwpiau lleol ran bwysig o ran helpu i fynd i'r afael â llygredd dŵr drwy ddarparu gwybodaeth fonitro a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bydd y tasglu'n gweithio gyda gwyddonwyr y bobl i ddeall sut y gall eu gwaith ein helpu i ddeall effaith gollyngiadau ar ddyfroedd derbyn yn well.

Goblygiadau ariannol – Bydd angen cwmpasu costau rhaglen fonitro well.

Argymhelliad 5

Dylai Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy anelu at adrodd ynghylch gollyngiadau o orlifoedd stormydd cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad ddechrau, sy'n ofyniad a osodir ar gwmnïau dŵr yn Lloegr gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Os na allant gyflawni'r safon hon, dylai'r ddau gwmni egluro pam.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd y cwmnïau dŵr yn ymateb gyda mwy o fanylder. Mae'r ddau'n cefnogi egwyddor yr argymhelliad hwn ond mae angen ystyried sut mae casglu a chyflwyno'r data, a gwneud mewn ffordd sy'n gydnaws â systemau digidol. Gallai fod yn anodd mewn ardaloedd gwledig lle gallai cysylltiadau telemetreg a digidol fod yn broblem.

Goblygiadau ariannol – Bydd angen cwmpasu cost systemau telemetreg ychwanegol. Cwsmeriaid y cwmnïau dŵr fydd yn eu hysgwyddo.

Argymhelliad 6

Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd yn cynnwys targedau ac amserlenni ar gyfer lleihau gollyngiadau carthion. Dylai gynnwys dulliau monitro ac adrodd cynhwysfawr a thryloyw er mwyn gallu asesu cynnydd. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r map ffordd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd o fewn 12 mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion yn gweithio'n glos ag CNC, cwmnïau dŵr, Ofwat, Afonydd Cymru a CCW fel rhan o'r Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell. Gweler yn amgaaedig ddatganiad sy'n crynhoi pwrpas y tasglu, y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'r meysydd ffocws.



roadmap statement
250422.docx

Goblygiadau ariannol – Daw'r gost i ddatblygu'r cynlluniau gweithredu o'r cyllidebau sy'n bod. Bydd angen cwmpasu'r costau ar gyfer cynnal y cynlluniau gweithredu.

Argymhelliad 7

Dylai Ofwat adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ei ymchwiliad i gwmnïau dŵr, i'r graddau y mae'r canfyddiadau hynny'n ymwneud â chwmnïau yng Nghymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny

Ymateb: Derbyn

Mae Ofwat wedi cadarnhau y byddant yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ei ymchwiliad.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Argymhelliad 8

Dylai CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y camau a gymerwyd o ganlyniad i ganfyddiadau ymchwiliadau Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw adolygiad o ddull cydymffurfio CNC ac unrhyw waith a wneir gyda chwmnïau dŵr, neu gamau gorfodi a gymerir yn eu herbyn, o ganlyniad i'r canfyddiadau hynny

Ymateb: Derbyn

Mae CNC wedi cadarnhau y bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor os caiff unrhyw gamau eu cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau ymchwiliadau Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 9

Dylai'r Gweinidog weithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu atebion ar sail natur i reoli dŵr. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y mater hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae prosiectau blaenllaw'n cael eu cynnal sy'n dangos y math o systemau draenio naturiol a chydweithio y gellid eu datblygu a'u cynnal.

Grangetown Werddach, Caerdydd - prosiect arloesol gwerth £2 miliwn, yn bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru Welsh Water a Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chefnogaeth y Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Mae'r prosiect yn defnyddio'r technegau draenio cynaliadwy (SuDS) diweddaraf i ddal a glanhau dŵr glaw a'i ollwng yn uniongyrchol i Afon Taf yn hytrach na'i gasglu a'i bwmpio wyth milltir i waith trin ym Mro Morgannwg ac yna ei ollwng i'r môr. Dyma'r tro cyntaf i'r technegau hyn gael eu hôl-ffitio i amgylchedd trefol ar y raddfa hon.

<https://greenergrangetown.wordpress.com/2018/10/10/greener-grangetown-project-completion-marked-by-welsh-environment-minister-gweinidog-amgylchedd-cymru-yn-nodi-cwblhau-project-grangetown-werddach/>

GlawLif - Buddsoddodd Dŵr Cymru £115 miliwn yn Llanelli a Thre-gŵyr mewn gwaith arloesol rhwng 2012 a 2020 sy'n rheoli dŵr wyneb ac yn lleihau llifogydd carthffosydd. Gwneir hyn drwy wahanu dŵr glaw oddi wrth y system bresennol, gan leihau faint sy'n llifo i'r rhwydwaith, trwy ei ailgyfeirio i afonydd a chyrsglau dŵr lleol, ac mewn rhai achosion, ei dynnu'n llwyr. Mae'n creu cymunedau gwyrddach a

glanach a chynefinoedd a bioamrywiaeth well. Dyma un o'r cynlluniau mwyaf sy'n seiliedig ar natur yn y DU.

[GlawLif Llanelli | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](http://dwrcymru.com)

Rydym wedi meithrin perthynas â'r holl randdeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol sy'n ymwneud â darparu atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn i ni roi Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar waith. Pan ddaeth y gofynion ar gyfer systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i rym ym mis Ionawr 2019, sefydlwyd Grŵp Gweithredu SuDS i nodi a gweithio drwy faterion o'r fath. Mae'r grŵp yn cynnwys y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru, y 22 Awdurdod Lleol a Chyrrff Cymeradwyo SuDS, CLILC, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF), Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol, landlordiaid cymdeithasol a pheirianwyr sifil, ymhlith eraill.

Ar hyn o bryd, rydym yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r modd y mae SuDS yn cael ei weithredu yng Nghymru. Caiff y rhanddeiliaid niferus sy'n gysylltiedig â SuDS eu holi gan gynnwys cynllunwyr, datblygwyr, Awdurdodau Lleol a thai cymdeithasol. Rydym yn trafod gydag adolygydd posibl ar hyn o bryd ond disgwyliaf i adroddiad interim gael ei gyhoeddi yn ystod hanner olaf eleni, y byddwn yn hapus i'w rannu â'r Pwyllgor. Bydd hyn yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud gan ein partneriaid yn CLILC.

Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cydweithio â'u cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU sy'n ystyried y ddadl o blaid rhoi Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar waith yn Lloegr. Mae'r adolygiad yn cynnwys nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cynnal SuDS.

Ein huchelgais yn y tymor hwy yw hwyluso mwy o atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys adfer gwlypdiroedd, rheoli llifogydd yn naturiol, defnyddio deunyddiau naturiol ar gyfer adeiladau a seilwaith megis toeau, waliau a dreifau gwyrdd. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cynnal atebion sy'n fwy seiliedig ar natur.

Bydd y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol yn nodi'r gofyn i Ofwat ystyried manteision niferus atebion sy'n seiliedig ar natur yn ystod yr adolygiad nesaf o brisiau. Yn y cyfamser, mae ein rhaglen lywodraethu wedi ymrwmo i gryfhau'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer SuDS sy'n hyrwyddo cynefinoedd bywyd gwyllt, fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd a sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Goblygiadau ariannol– Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Argymhelliad 10

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi'r gwahanol gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r

afael â phroblem llygredd yn afonydd Cymru o ffynonellau ar wahân i orlifoedd stormydd.

Ymateb: Derbyn

Mae CNC wrthi'n cwblhau fersiwn nesaf y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a fydd yn rhoi darlun cynhwysfawr i ni o'n holl gyrff dŵr, y pwysau sydd arnyn nhw a'r mesurau sydd eu hangen i wella ansawdd dŵr.

Dim ond drwy gydweithio y gallwn fynd i'r afael â'r risgiau niferus y mae ein llynnoedd yn eu hwynebu e.e. prosiectau cydweithredol Hafren Dyfrdwy:

Efyrnwy – Ar y cyd ag RSPB Cymru, adfer mawnogydd a chynefinoedd allweddol eraill gan gynnwys rhosydd sych, cyforgorsydd, dolydd blodau gwyllt, ffriddoedd a choetiroedd yn ystâd Efyrnwy. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu rhaglen o waith gwella a ddaw â budd i nifer o rywogaethau allweddol o bwys cenedlaethol ar y safle, gan gynnwys y Bod Tinwen, y Cudyll Bach, y Rugiar Ddu, y Rugiar Goch, y Gylfinir a'r Gliradain Gymreig (gwyfyn prin).

Y Llwybrau at Berlau – Gan weithio ar y cyd yn y Trallwng, Cyfronydd a Chegidfa, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn Powys yn creu tirwedd sy'n llawn bywyd gwyllt a chysylltiadau da a ddaw â budd arbennig i bryfed peillio gan gynnwys y Fritheg Berlog brin. Ac mae chwareli pentrefi'r Mwynglawdd a Marford yn Wrecsam mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi gwella 60+ hectar o gynefinoedd er lles pryfed a phlanhigion.

Goblygiadau ariannol – Bydd angen cwmpasu'r costau, gan ddibynnu ar faint o brosiectau a/neu waith adfer sydd eu hangen yn yr holl gyrff dŵr.